



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

CYLCH GORCHWYL (ToR)¹ TECHNOLEG IECHYD CYMRU

Grŵp Asesu HTW

Dyddiad Dod i Rym	1 Mai 2021
Cymeradwywyd Gan	Grŵp Asesu
Dyddiad Adolygu	30 Ebrill 2022
Awdur Arweiniol	Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru
Fersiwn	V3.1

¹ Mae hon yn ddogfen fyw ac felly, gall newid. Mae'r ddogfen yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

1. DIBEN A CHYLCH GWAITH

Bydd y Grŵp Asesu yn goruchwyllo cynhyrchu allbynnau HTW, ac yn sicrhau cadernid methodoleg a gwyddonol gwaith HTW, a'i fod yn glynu at brosesau cytunedig HTW ar ran Panel Arfarnu HTW.

2. CWMPAS A DYLETSWYDDAU

Cyfrifoldebau penodol y Grŵp Asesu:

- Cynnal y broses dewis pwnc ar gyfer HTW a blaenoriaethu'r rhaglen waith, pan ac os bydd angen, yn cynnwys sganio'r gorwel a dod o hyd i bwnc posibl (e.e. Health Tech Connect).
- Cyfarfod ag atgyfeirwyr pynciau a chytuno ar y cwestiynau ymchwil i'w hateb.
- Goruchwyllo cynhyrchu asesiad beirniadol o dystiolaeth, gan sicrhau ei fod yn unol â phrosesau arfarnu HTW.
- Cytuno ar yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid sydd eu hangen.
- Adolygu'r Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth (EARs) ar ran Panel Arfarnu HTW.
- Sicrhau Panel Arfarnu HTW ynglŷn â chadernid methodoleg a gwyddonol.
- Adolygu sylwadau ymgynghori ar yr EARs, eu diwygio yn ôl y galw, a'u cyflwyno i Banel Arfarnu HTW ar gyfer eu hadolygu a'u cefnogi.
- Asesu p'un a oes digon o dystiolaeth ar gael i symud ymlaen i'r Panel Arfarnu, a chadarnhau p'un a ddylai pwnc symud ymlaen i Canllaw
- Datblygu a gwella prosesau'r Grŵp Asesu yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr.
- Gweithredu ar y cyd i dderbyn a chytuno ar fusnes cyfarfodydd.

Cyfrifoldebau penodol aelodau unigol y Grŵp Asesu:

- Ymrwymo'n llawn i'r Grŵp Asesu a'r tasgau sydd eu hangen i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y cylch gorchwyl.
- Mynychu pob cyfarfod y Grŵp Asesu neu drefnu (lle bo hynny'n briodol) i ddirprwy fynychu yn eu lle.
- Bod yn gyfrifol am dynnu sylw'r Cadeirydd at feysydd sy'n peri pryder.
- Darllen holl bapurau cyfarfodydd cyn y cynhelir y cyfarfodydd.
- Cytuno i arwain ar bynciau a darnau o waith penodol, yn unol â chais Cadeirydd y Grŵp Asesu.
- Cyfranogi mewn a chyfrannu at is-grwpiau'r Grŵp Asesu yn ôl y galw.

3. PWERAU WEDI'U DIRPRWYO AC AWDURDOD

Mae'r Grŵp Asesu wedi cael ei awdurdodi gan Grŵp Llywio HTW i adolygu ac ystyried gweithgarwch o fewn ei Gylch Gorchwyl. Mae wedi'i awdurdodi i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arno gan randdeiliaid a Chadeirydd Panel Arfarnu HTW er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Ni fydd sefydlu'r Panel Arfarnu yn gwrthdaro, dyblygu nac yn cymryd lle rôl a chyfrifoldebau Panel Arfarnu HTW.

Bydd y Grŵp Asesu hwn yn cyflawni swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan Grŵp Llywio a Phanel Arfarnu HTW.

Mae'r Grŵp Asesu yn atebol i Banel Arfarnu HTW.

4. AELODAETH

Cadeirydd HTW a Chyfarwyddwr HTW fydd yn penderfynu ar aelodaeth y Grŵp Asesu.

Os na fydd aelod yn gallu mynychu, gellir anfon sylwadau ymlaen llaw drwy e-bost a / neu gellir anfon dirprwy wedi'i enwi sydd â phrofiad tebyg yn ei le.

Gall aelodau sy'n pleidleisio gynnwys:

- Cadeirydd y Grŵp Asesu (Cyfarwyddwr neu Uwch Ymchwilydd HTW)
- Cadeirydd HTW
- Swyddfa'r Prif Wyddonydd (Iechyd yn cynnwys Gofal Cymdeithasol)
- Cedar
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
- Ymchwil / Arfarnu Technoleg Gofal Iechyd
- Partneriaeth Gwyddor Iechyd Academaidd (AHSP)
- Economeg Iechyd, Canolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE)
- Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth (EBPB)
- Cynrychiolydd caffael NWSSP
- Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL)
- Adolygydd Systematig
- Cynrychiolydd arloesi
- Cynrychiolydd gofal cymdeithasol
- Partneriaid Cyhoeddus x 2
- Unigolion a gyfetholir ar gyfer cyngor ar bynciau arbenigol
- Cynrychiolwyr clinigol x 2

Bydd staff HTW yn bresennol yn ôl y galw.

Efallai y caiff unigolion sy'n gweithio yng Nghymru ac sydd ag arbenigedd penodol mewn asesu technoleg iechyd, ac sy'n gallu yfrannu at waith y Grŵp Asesu gael eu hystyried ar gyfer aelodaeth hefyd.

Bydd rhanddeiliaid, yn arbennig y rheiny sy'n atgyfeirio pwnc ac arbenigwyr eraill, yn cael eu gwahodd i fynychu ar gyfer eu heitem agenda eu hunain.

Os na fydd aelod yn gallu mynychu, gellir anfon sylwadau ymlaen llaw drwy e-bost a/neu gellir anfon dirprwy wedi'i enwi sydd â phrofiad tebyg yn ei le.

Mae aelodaeth bresennol y Grŵp Asesu i'w weld ar wefan HTW.

5. PENODI AELODAU A CHEFNOGAETH

Cyfarwyddwr HTW fydd yn penderfynu ar aelodaeth y Grŵp Asesu, gan roi ystyriaeth i gydbwysedd y sgiliau a'r arbenigedd sydd ei angen i gyflawni cylch gwaith y Grŵp Asesu.

Bydd aelodau yn cael eu penodi yn gyntaf am isafswm o 18 mis cyn y caiff eu rôl ar y Grŵp ei hadolygu'n ffurfiol. Yn ystod y cyfnod hwn, gall aelod ymddiswyddo neu gael ei dynnu oddi ar y Grŵp gan Swyddfa Rhaglenni HTW. Unwaith ei fod wedi'i sefydlu, bydd aelodau newydd yn cael eu hychwanegu yn raddol. Bydd hyd arferol penodiadau yn dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail dymor. Ni fydd estyniadau pellach yn cael eu caniatáu.

Bydd hyfforddiant priodol a chyfleoedd datblygu yn cael eu darparu i aelodau newydd a presennol fel bo'n briodol.

6. CYFARFODYDD Y GRŴP ASESU

Cworwm

Mae'n rhaid i o leiaf 50% o'r aelodau sydd â phleidlais (neu ddirprwyon enwebedig) fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Grŵp. Os nad yw cyfarfod yn llawn, bydd yn dal i fynd ymlaen, ond bydd angen cael caniatâd terfynol ar benderfyniadau yn electronig ar ôl y cyfarfod.

Amllder cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis (fel arfer ar ddydd Mawrth cyntaf pob mis). Efallai y bydd pedwar cyfarfod blaenoriaethu ychwanegol y flwyddyn yn cael eu trefnu i ddewis pynciau i'w cynnwys ar raglen waith HTW.

Gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Bydd cyfleusterau deialu i mewn ar gael ar gyfer aelodau sy'n methu mynychu'n bersonol.

7. PERTHYNAS AC ATEBOLRWYDD

Bydd y Grŵp Asesu yn cadw at safonau, blaenoriaethau a gofynion corfforaethol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, e.e. cydraddoldeb a hawliau dynol, pan fydd yn cynnal ei fusnes.

Bydd yn ofynnol i Aelodau ddychwelyd / adolygu Datganiadau o Fuddiant yn flynyddol, a rhoi gwybod i Swyddfa'r Rhaglen am unrhyw newidiadau sylweddol o fewn y flwyddyn. Bydd yn ofynnol i Aelodau lofnodi cytundeb cyfrinachedd hefyd, a thrin yr holl bapurau cyfarfod yn gyfrinachol, oni bai eu bod wedi'u cyhoeddi gan HTW.

8. TREFN CYFARFODYDD

Bydd Swyddfa'r Rhaglen yn penderfynu pa eitemau fydd yn ymddangos ar yr agenda mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr HTW.

Gall aelodau Grŵp Asesu HTW gyflwyno eitemau i'w hystyried hefyd. Dylai unrhyw aelod sy'n dymuno ystyried eitem ar gyfer agenda hysbysu Swyddfa Rhaglen HTW (healthtechnology@wales.nhs.uk) cyn gynted â phosibl.

Bydd yr agenda a'r papurau yn cael eu dosbarthu i aelodau Grŵp Asesu HTW o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd. Fel arfer, bydd y drefn busnes yn dilyn yr agenda, ond y Cadeirydd fydd yn cael y gair olaf am hyn. Gellir derbyn papurau a gyflwynir mewn tabl gyda chytundeb penodol y Cadeirydd, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Ni fydd unrhyw fusnes arall yn cael ei drafod yn y cyfarfod, ond bai y caniateir hynny gan y Cadeirydd.

Bydd eitemau na fydd wedi'u cwblhau yn cael eu cario ymlaen i'r cyfarfod nesaf neu eu cwblhau'n electronig.

Bydd nodyn gweithredu o'r cyfarfod yn cael ei lunio gan swyddfa Raglenni HTW, ar ran y Cadeirydd.

Bydd cyfarfodydd y Grŵp Asesu yn cael eu recordio at ddibenion creu'r cofnodion / log gweithredu. Bydd recordiadau yn cael eu dileu pan fydd y busnes perthnasol wedi'i gwblhau.

9. GWNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd Grŵp Asesu fel arfer yn gwneud penderfyniadau drwy gonsensws yr aelodau hynny sy'n bresennol. Cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud i gynnal pleidlais, bydd y Cadeirydd, ym mhob achos, yn ystyried a fydd parhau'r drafodaeth mewn cyfarfod dilynol yn debygol o arwain at gonsensws.

Os bydd angen, cynhelir pleidlais ffurfiol ac os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, yr unigolyn a fydd yn llywyddu'r cyfarfod fydd â'r bleidlais fwrw.

Dim ond aelodau llawn Grŵp Asesu HTW fydd â hawl i bleidleisio, a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n bresennol mewn cyfarfod sydd â chworwm. Nid oes gan y rheiny sy'n bresennol, aelodau sy'n arsylwi a Swyddfa Rhaglenni HTW yr hawl i bleidleisio.

Bydd gan Aelod yr hawl i'w anghytundeb gael ei gofnodi yn y cofnodion.

10. ADRODD A THREFNIADAU SICRWYDD

Bydd y Cadeirydd yn amlygu/uwchgyfeirio materion priodol sydd yn cael eu trafod pan fydd angen i Banel Arfarnu a/neu Grŵp Gweithredu HTW fel sy'n briodol.

11. CADEIRYDD YN GWEITHREDU AR FATERION BRYD

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd angen gwneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd sydd wedi'u hamserlennu. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd Cyfarwyddwr/Cadeirydd HTW yn delio â'r mater ar ran y Grŵp Asesu. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr HTW sicrhau bod unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'i adrodd wrth y cyfarfod nesaf ar gyfer ei ystyried a'i gadarnhau.

Ni all gweithredu bryd gan y Cadeirydd gael ei wneud mewn achosion ble mae gan y Cadeirydd fudd personol neu fusnes yn y mater bryd dan sylw.

12. ADOLYGIAD

Bydd y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Asesu ,gan gyfeirio at y Grŵp Gweithredu.